

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 26<sup>AIN</sup> CHWEFROR 2020 YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

- 1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)  
**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), R. Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD) a Garffild Ll Lewis (GLL)  
**1.3** Ymddiheuriadau: Elen H Edwards (EHE) a Mark Davies (MD)  
**1.4** Absennol: Gwyn Williams (GW) a Gwydion Jones (GJ)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

AV: 11. isod.

**3 COFNODION I'W GWIRO 30<sup>AIN</sup> IONAWR 2020**

REW yn cynnig ac EW yn eilio eu bod yn gywir.

**4 MATERION YN CODI 3) UCHOD**

**EW** wedi rhoi hysbyseb am gontractwyr lleol ar gyfer gwaith ail leoli'r fainc solar efo dyddiad cau 10<sup>fed</sup> Mawrth 2020 ar y wefan. EW i ofalu fod hysbyseb arall yn cael ei roi ar y wefan i gontractwyr lleol gysylltu â'r Cadeirydd os oes gennynt ddiddordeb i wneud gwaith ar ran y Cyngor.

**GLL** wedi gyrru ebost efo diweddariad o'r holl bwyntiau y codwyd yn y cyfarfod diwethaf. CCBC yn ymwybodol o'r gwaith sydd angen ei wneud yn lleol. GLL yn dilyn i fyny yn ystod y pythefnos nesaf. Adroddodd ynglyn â'r biniau clytiau fod angen cael engrheiffitiau os oes problemau er mwyn adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir, angen i'r trigolion gysylltu â'r Cyngor i drefnu.

**Mandad Banc:** Gofynnodd REW os oedd diweddariad ynglyn â'r fandad banc. Cyngorwyr sydd angen arwyddo bellach wedi gwneud fel fo angen. CR yn bwriadu mynychu'r banc yfory. GD yn atgoffa fod angen mynd â chofnodion yn cadarnhau'r enwau i fynd ar y fandad newydd i'r banc.

**REW** wedi bod mewn cysylltiad efo'r archifdy, oherwydd fod yr archifdy wedi cau yn Llandudno, aros tan mis Ebrill i fynd a'r dogfennau diweddaraf a'r dogfennau o Rhuthun draw i Gonwy.

**5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD**

- 5.1** Mainc Solar: cafwyd diweddariad gan EW yn 4 uchod. Bydd angen cysylltu â Meira Woosnam (CCBC)/Paul (Glan Collen) i gael cymorth wrth ail-leoli'r fainc yn dilyn cael pris gwneud safle newydd ar gyfer y fainc.  
**5.2** Ffordd B5382: GLL yn adrodd fod y gwaith i fod i gael ei orffen erbyn dydd Gwener (28<sup>ain</sup> Chwefror 2020). Mae'n debyg nad oedd y broblem ddim cynddrwg ag oedd pawb wedi ofni.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim ceisiadau.

**7 MATERION Y CYNGOR**

- 7.1** Calendr: adio cytundeb torri mynwentydd ym mis Chwefror.  
**7.2** Diwygio Rheolau: neb wedi cael amser i edrych dros rhain, eitem ar agenda nesaf.  
**7.3** Adroddiad Un Llais: DR wedi mynychu cyfarfod diweddar. Adroddod fod gwrthod taliadau cydnabyddiaeth os yw cyngorwyr yn derbyn credyd cynhwysol yn gallu effeithio budd-daliadau i geisio annog pobl sydd ddim yn gynghorwyr ar hyn o bryd i ddod yn gynghorwyr

yn y dyfodol. Annogir bawb fynd ati i geisio am grantiau gan Gronfa Cymunedol y Loteri (ceir fyny at £500,000 er budd cymunedol). REW wedi cael ebost gan Menter Iaith yn hysbysu am y grantiau yma. Awgrymu fod pobl yn cysylltu â'r loteri cyn gwneud cais i drafod.

Adroddodd DR hefyd fod angen i rifau ffôn/cyfeiriadau ebost y Cynghorwyr i gyd fod ar gael i'r cyhoedd allu gysylltu â nhw. Adroddod fod 30% o wefanau cyngor ddim yn cydymffurfio efo'r rheolau.

Cyfarfodydd nesaf Un Llais 29<sup>ain</sup> Ebrill 2020 ym Mhentrefoelas a 1<sup>af</sup> Gorffennaf 2020 ym Modelwyddan. Angen diweddarau gwefan Cyngor Bro Cernyw, eitem ar agenda nesaf. Trafodwyd fod angen rhoi rhestr y wardiau mae'r Cynghorwyr yn eu cynrychioli ar y wefan, EW i ofalu am baratoi a'i roi ar y wefan. EW hefyd am ofalu am adroddiad bioamrywiaeth.

**7.4 Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned:** EW wedi mynychu o'r blaen, cyfarfodydd buddiol. CR/EW am geisio mynychu cyfarfod fis Mawrth ar ran y Cyngor.

**7.5 Creu Lleoedd i Natur:** trafodwyd y prosiectau sydd ar gael. Gofynnodd GLL os oedd modd gwneud unrhywbeth efo'r llwybrau cyhoeddus ynglyn a'r prosiect. Lleoliad ger y cwrt aml-dywydd yn Llangernyw yn cael ei grybwyll ar gyfer y prosiect. Cododd DR y posibilrwydd o gael rhandiroedd yn y safle drwy'r prosiect. Penderfynwyd datgan diddordeb yn y cynllun cyn 6<sup>ed</sup> Mawrth, CR i ofalu.

**7.6 Hysbysu torri glaswellt:** REW wedi bod yn siarad efo Dei sydd yn gwneud y gwaith, cadarnhau fod y cytundeb arwyddwyd yn 2019 yn cynnwys torriadau 2020.

**7.7 Sesiynau taro mewn:** Cododd EW ei bod wedi bod yn trafod efo iCan ynglyn a gofal iechyd meddwl dros Gogledd Cymru a hefyd Dementia Friends. Staff gwirfoddol yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth, cododd EW y buasai'n syniad da i'r cyngor ofyn i'r mudiadau yma fynychu'r sesiynau galw mewn er mwyn codi ymwybyddiaeth. GLL yn fodlon iawn i fynychu'r sesiynau hefyd. AV yn codi y buasai modd gofyn wrth CVSC am gymorth i ariannu. GD yn teimlo y buasai hefyd yn syniad gofyn i CVSC fynychu, EW yn codi fuasai'n syniad da gofyn i'r PCSO hefyd ynghyd â Cartrefi Conwy, Grŵp Cynefin. Penderfynwyd ar y dyddiadau isod ar gyfer y sesiynau:

Llangernyw: 23<sup>ain</sup> Mai 2020

Gwytherin: 13<sup>eg</sup> Mehefin 2020

Pandy Tudur: 11<sup>eg</sup> Gorffennaf 2020

Eitem ar agenda nesaf.

## **8 MATERION ARIANNOL**

**8.1 Cais Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst 2020:** penderfynwyd rhoi rhodd o £30, AV yn cynnig a DR yn eilio.

## **9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR**

Adroddodd GLL yn dilyn y llifogydd diweddar, ar ôl yr ail storm, bu dau swyddog o'r tîm llifogydd gyda GLL yn y cartrefi oedd wedi eu difrodi yn Llangernyw. CCBC wedi paratoi adroddiad tymor byr yn dilyn y llifogydd. Bu i'r nant a'r afon orlifo ger y Bont Faen, a rhwystr o dan y bont yng nghanol y pentref. Sefyllfa gymleth iawn o ran atebolrwydd am y difrod. Asiantaethau mewn trafodaethau ynglyn â sut i symud ymlaen i'r dyfodol, mae'n debyg eu bod yn beio eu gilydd ar hyn o bryd, GLL o'r farn fod angen i bawb (yr asiantaethau, ffermwyr a thirfeddianwyr) gyd-weithio a sefydlu tasglu ar gyfer y dyfodol. Bydd cais ariannol i lywodraeth Cymru yn cael ei wneud i helpu'r ardal. Mae £500 ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer pob cartref sydd wedi ei effeithio, angen i swyddog o'r Cyngor ddod i weld y difrod yn i. Ffurflen ar gael ar wefan Conwy.

Wedi mynychu cyfarfod efo'r Cyngor a chael adroddiad gan y Cyngor Sir. 68 o staff y cyngor wedi bod allan yn ystod ac yn dilyn y stormydd yn helpu efo'r clurio.

Adroddodd y byddai effaith y stormydd yn cael effaith dybryd ar iechyd meddwl pobl.

Bydd Prif Weinidog Cymru yn yr ardal yfory, gan fod GLL yn methu mynychu'r cyfarfod, Ifor Lloyd (cynghorydd ardal Llanfair TH) am sôn am y problemau yn ardal Bro Cernyw hefyd. Polisi bagiau tywod y Cyngor yw ar gyfer gwyrriad yn unig. Awgrymu edrych ar ddiogelu tŷ eich hunan (megis giatau llifogydd ayyb), GLL yn ymchwilio mewn i weld os oes grantiau ar gael ar gyfer hyn.

Cododd GD fod yn beth da fod y Prif Wenidog yn dod i Llanfair TH yfory i weld yr ardaloedd. Cododd DR fod y Cyngor Cymuned wedi prynu bagiau tywod adeg y llifogydd yn ardal Llanellwly ychydig flynyddoedd yn ôl a fod rhain wedi cael eu storio gan Gwynfor, Swyn y Nant.

Fforwm Clercod Cyngor Cymuned: cynllun i helpu clercod gan y Cyngor Sir efo awdit ariannol a materion eraill.

Arolwg cludiant wedi bod yn mynd ymlaen drwy'r sir dros dwy flynedd, cynllun peilot yn dechrau ym mis Mai, gwasanaeth trafniadaeth bus ar alw yn yr ardaloedd gwledig ar gael 6 diwrnod yr wythnos. Bydd ymgyrch cyhoeddusrwydd cyn mis Mai fel fod trigolion yn ymwybodol o'r cynllun newydd.

Parc Gwytherin wedi ei gau oherwydd y dŵr gan ei fod yn beryglus.

Dyddiad Clwb Busnes Hiraethog nesaf: 24<sup>eg</sup> Mawrth 2020.

Adroddodd GLL fod cynnydd treth Cyngor Sir yn debygol o fod yn 7%.

## 10 BILIAU

**10.1** Hurio Canolfan Pandy: £80, talwyd.

**10.2** Enlli: £78.46, talwyd.

**10.3** Cais ar ran Menter Bro Cernyw am y £500 a glustnodwyd yn y presept 2019/2020, talwyd.

## 11 MATERION LLEOL

**EW** wedi derbyn holiadur gan CCBC ynglyn â cyfleusterau cyhoeddus, eisiau gwybod faint o arian mae'r Cyngor wedi ei glustnodi yn y presept ar gyfer y gwasanaethau. EW i gwblhau a gyrru'r ffurflen yn ôl ar ran y Cyngor.

**AV** nodi fod angen glanhau'r ffordd gyferbyn â Capel Bethabara. Twll yn y ffordd rhwng Bryn Gwylan a Bryn yr Aur. Defnyddio ReportIt i hysbysu'r Cyngor Sir.

Tystysgrifau Conwy Wledig, CR i atgoffa Jane Roberts i drefnu rhoi rhain i fyny.

**GD** ffordd yn rhoi rhwng Tan Ffos a'r Felin yn Llangernyw. GLL wedi adrodd hyn i'r Cyngor Sir. Pont Garreg Newid/Newydd: afon wedi dechrau bwyta o dan y sylfaen, GLL am adrodd i'r Cyngor Sir am hyn.

**REW** ymgynghoriad archwiliad ar ebost ynglyn a newid archwiliad blynyddol i dair blynedd. Dyddiad cau yr ymgynghoriad 19<sup>eg</sup> Mawrth. Penderfynwyd cynnal is-bwyllgor i drafod cyn y cyfarfod nesaf yngyd â'r Rheolau Sefydlog 16<sup>eg</sup> Mawrth 2020 yn Llangernyw.

Dŵr a difrod yn Gwytherin dilyn y stormydd diweddar. Adrodd REW fod gwaith wedi cael ei wneud ond fod mwy angen ei wneud. Ddim wedi cael ymateb yn dilyn adrodd i'r Cyngor am ddifrod i'r ffordd, GLL i ddilyn hyn i fyny.

Cynghorwyr i gyd yn adrodd am lawer o dyllau yn y ffyrdd yn lleol.

## 12 CYFARFOD NESAF

25<sup>ain</sup> Mawrth 2020

Cyfarfod yn dod i ben 9:40yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan

### Eitemau ar agenda nesaf:

- Mandad Banc
- Mainc Solar

- Diwygio rheolau
- Diweddarau gwefan
- Sesiynau taro mewn